

## **Crynodeb o'r hyn sy'n ofynnol gan TAN15 er mwyn i ddatblygiad agored iawn i niwed (tai) fod yn dderbyniol o fewn ardal lle ceir perygl o lifogydd.**

### **Meini Prawf Cyfiawnhau:**

- 1) Dylai fod wedi'i leoli dim ond mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd sydd wedi'i datblygu ac a wasanaethir gan isadeiledd sylweddol, yn cynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd (e.e. Parth C1 y map cyngor datblygu) **AC**
- 2) Mae ei leoliad yn ofynnol i gynorthwyo menter neu strategaeth adfywio awdurdod lleol<sup>1</sup>, neu i gyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol, sy'n ofynnol i gynnal anheddiad neu ranbarth presennol **AC**
- 3) Mae'r safle'n cydymffurfio â'r diffiniad o dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol (h.y. nid yw'n safle Maes Glas) ac mae'n cydymffurfio â nodau Polisi Cynllunio Cymru (h.y. y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy) **AC**
- 4) Mae Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd wedi'i baratoi i ddangos fod canlyniadau posibl digwyddiad o lifogydd hyd at ddigwyddiad o lifogydd eithafol (1 siawns mewn 1000 o ddigwydd yn ystod unrhyw flwyddyn) wedi cael eu hystyried ac maent yn cyflawni'r meini prawf isod er mwyn cael eu hystyried yn dderbyniol.

### **Meini Prawf Derbynioldeb (rhaid cyflawni pob un ohonynt):**

- Rhaid i'r datblygwr ddangos fod amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ddigonol o ran eu strwythur, yn enwedig o dan amgylchiadau eithafol o dorri dros y top (h.y. llifogydd â siawns o 1 mewn 1000 o ddigwydd yn ystod unrhyw flwyddyn).
- Rhaid i'r datblygwr dderbyn costau cynnal a chadw unrhyw fesurau lliniaru llifogydd newydd/a gymeradwyir gan gynnwys amddiffynfeydd, a rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) gytuno arnynt.
- Rhaid i'r datblygwr sicrhau bod y sawl fydd yn defnyddio'r adeiladau yn y dyfodol yn ymwybodol o'r risg o lifogydd ac o'r canlyniadau.
- Rhaid darparu rhybuddion effeithlon o lifogydd ar y safle
- Rhaid i'r datblygwr ddangos bod y llwybrau dianc a'r llwybrau ar gyfer symud pobl allan yn weithredol o dan bob amgylchiad
- Rhaid i'r datblygwr ddangos bod cynlluniau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer argyfwng
- Rhaid i'r datblygwr gynllunio'r datblygiad fel bod modd i'r sawl sy'n defnyddio neu'n byw yn yr eiddo symud nwyddau/eiddo yn gyflym i ardaloedd oddi wrth y llifogydd.
- Mae'r datblygiad wedi cael ei gynllunio i wneud cyn lleied â phosib o ddifrod strwythurol pan fydd llifogydd yn digwydd ac mae'r adeilad yn ymgorffori mesurau rhag llifogydd, fel y gellir ei ddefnyddio at ei brif bwrpas yn fuan wedi llifogydd
- Ddim yn achosi llifogydd rhywle arall.
- Mae'n ofynnol i'r datblygwr ddangos fod y safle wedi'i gynllunio i fod yn gwbl rydd o lifogydd am oes (A1.5) y datblygiad naill ai mewn achos o lifogydd (afonol) sydd ag 1 siawns mewn 100 o ddigwydd, neu lifogydd (llanwol) sydd ag 1 siawns mewn 200 o ddigwydd, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (yn ddibynnol ar y math o risg llifogydd sy'n bresennol) yn unol â thabl A1.14.
- O ran y risgiau fydd yn weddill i'r datblygiad, dylid ei gynllunio fel y byddai, yn ystod ei oes, llai na 600mm o ddŵr ar ffyrdd mynediad ac o fewn eiddo, byddai cyflymder unrhyw ddŵr yn llifo ar draws y datblygiad yn llai na 0.3m/eiliad ar ffyrdd mynediad ac 0.15m/eiliad o fewn eiddo, ac ni fyddai cyfradd uchaf codiad llifddwr yn fwy na 0.1m/awr. (gweler A1.15).

<sup>1</sup> Rhaid i Fentrau Adfywio fod yn gynhwysfawr, yn aml-gyfeiriol ac yn rhan o becyn integredig o fentrau yr ymgynghorwyd ynglŷn â hwy gyda'r cyhoedd. Strategaeth yr Awdurdod Lleol fydd y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal (y fersiwn adneuo fan lleiaf).